

Hysbysiad Preifatrwydd – Diogelu Data, canllaw i fyfyrwyr (2019 – Myfyrwyr AU)

Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i Goleg Gŵyr Abertawe gydymffurfio a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (2018) (GDPR). Mae hefyd angen iddo gofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'i hysbysu at ba ddibenion y mae'n bwriadu casglu, cadw a defnyddio data personol a sut y gallai'r data hyn gael eu rhannu. Mae fersiwn lawn o'r polisi diogelu data ar gael ar wefan y Coleg.

Sut y caiff eich data eu defnyddio gan y Coleg

Mae angen y data rydym yn eu casglu er mwyn:-

- cefnogi'ch addysgu, dysgu ac asesu;
- monitro'ch cynnydd ac adrodd amdano;
- bodloni gofynion iechyd a diogelwch a chyfle cyfartal
- darparu gofal bugeiliol priodol, a sicrhau ein bod yn diwallu ein dyletswydd gofal i bob dysgwr
- gael datganiadau meddygol a'r dystiolaeth ategol ofynnol y mae'n rhaid i ni fod yn ymwybodol ohonynt i ddarparu'r cymorth priodol
- darparu'r data priodol i'r sefydliadau cyllido a dyfarnu
- dadansoddwch y perfformiad o'r Coleg a'i ddysgwyr.

Pa ddata personol mae'r Coleg yn eu casglu?

Mae'r data personol a gasglwn yn cynnwys:

- Enw, cyfenw blaenorol ac enw arferol
- Cyfeiriad a chod post
- Rhifau ffôn (gan gynnwys ffôn symudol)
- Dyddiad geni
- Rhywedd
- Cyfeiriad e-bost
- Manylion cyswllt mewn argyfwng
- Gwlad breswyl barhaol
- Dyddiad dod i'r DU
- Cenedligrwydd
- A yw'r Saesneg yn ail iaith i chi
- Gwybodaeth am bresenoldeb
- Gwybodaeth sydd i'w chasglu gan y sefydliad dyfarnu
- Yr holl waith a gyflwynwyd, gan gynnwys marciau a graddau a roddir

Rydym hefyd yn casglu'r data canlynol sy'n categori arbennig er mwyn i ni gydymffurfio â gwaith monitro cydraddoldeb y Coleg a sicrhau dyletswydd gofal:

- Ethnigrwydd
- Anabledd neu anawsterau
- Tystiolaeth feddygol sy'n gysylltiedig ag unrhyw drefniadau arbennig y mae'n rhaid i ni fod yn ymwybodol ohonynt tra byddwch yn astudio gyda ni ac sy'n berthnasol i'ch dysgu

Rydym yn gofyn am fanylion eich mamiaith er mwyn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, a llywio penderfyniadau ynghylch ein darpariaeth iaith Gymraeg.

Trefniadau diogelwch

Caiff eich data, boed ar ffurf electronig neu bapur, yn cael eu cadw'n unol â'n polisi naill ai mewn ffeiliau a amddiffynnir gan gyfrinair neu mewn cypyrddau neu ystafelloedd ar glo. Mae gan staff fynediad i'ch data ar sail "angen gwybod" yn unig, yn unol â'u dyletswyddau yn y Coleg ac maent oll yn ymgymryd â hyfforddiant gorfodol ar y Ddeddf a'u cyfrifoldebau.

Am ba mor hir bydd y Coleg yn cadw'ch data?

Bydd y Coleg yn cadw'ch data fel a ganlyn:

Math o Gofnod	Cyfnod Cadw	Pwrpas
Data/cofnodion myfyrwyr, (nid yw'n ofynnol i Lywodraeth Cymru) gan gynnwys data cyrhaeddiad academaidd ac ymddygiad	Am o leiaf 6 blynedd o ddyddiad y mae'r myfyriwr yn gadael y Coleg	Cyfnod cyfyngedig ar gyfer esgeulustod
	Am o leiaf 10 mlynedd ar gyfer geirdaon personol ac academaidd	Galluogi'r Coleg i ddarparu geirdaon am gyfnod rhesymol o amser
	Gellir cadw data personol penodol am byth	Er y bydd rhai geirdaon personol ac academaidd yn mynd yn "hen", gellir bod angen rhai mathau o ddata, e.e. trawsgrifiadau o raddau myfyrwyr, drwy gydol gyrfa'r myfyriwr..

Gyda phwy rydym yn rhannu'ch data

Caiff eich data eu defnyddio neu eu rhannu ag eraill dim ond at ddibenion penodol a ganiateir yn ôl y gyfraith.

Bydd y Coleg hefyd yn rhannu'ch data â'r awdurdod cyllido neu ddyfarnu sy'n gyfrifol am ddarparu'ch cwrs a chadarnhau unrhyw gyllid myfyrwyr. Byddant yn eu tro yn prosesu a rhannu'ch gwybodaeth fel sy'n ofynnol, fel yr amlinellir yn eu hysbysiadau preifatrwydd (dolennau isod).

I gael manylion sut mae'r sefydliadau hyn yn defnyddio'ch data, cyfeiriwch at yr hysbysiadau preifatrwydd.

- Prifysgol y Drindod Dewi Sant (<https://www.uwtsd.ac.uk/data-protection/>)
- Prifysgol De Cymru (http://uso.southwales.ac.uk/media/files/documents/2018-08-10/Student_Privacy_Notice_-_V22018.docx)
- Prifysgol Swydd Gaerloyw (<http://www.glos.ac.uk/docs/download/Privacy-notices/UoG-Student-Privacy-Notice.pdf>)
- Prifysgol Glyndŵr Wrecsam (<https://www.glyndwr.ac.uk/en/InformationGovernance/PrivacyStatements/>)
- CCAUC (Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru) (http://www.hefcw.ac.uk/home/hefcw_privacy.aspx#hidestudents)
- HESA (Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch) (<https://www.hesa.ac.uk/about/regulation/data-protection/notices>)
- Cyllid Myfyrwyr (https://media.slc.co.uk/alldomiciles/nysf/dps_privacy_notice_e_o.pdf)

Mae'r Coleg hefyd yn rhannu'ch data â sefydliadau dyfarnu y mae angen data arnynt at ddibenion cofrestru, ardystio ac arholi. Mae'r holl rannu data o'r fath wedi'i gynnwys mewn cytundebau rhannu data.

Eich hawliau a'ch dewisiadau

O dan GDPR mae gennych yr hawl i:

- gael mynediad i ddata personol y mae'r Coleg yn eu cadw amdanoch
- gofyn i'r Coleg gywiro unrhyw gamgymeriadau yn y data hynny
- gwrthod unrhyw brosesu sy'n seiliedig ar eich sefyllfa personol chi (dan rai amgylchiadau)
- cyfyngu ar brosesu (dan rai amgylchiadau)
- dileu'ch data (dan rai amgylchiadau)
- cyflwyno cwyn gerbron Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (yr ICO, sef rheolydd annibynnol diogelu data)

Eich cyfrifoldebau: rydym yn ymdrechu i sicrhau bod y data rydym yn eu cadw'n gywir. A wnewch chi ein hysbysu os bydd unrhyw newidiadau i'ch data, e.e. cyfeiriad, rhif ffôn etc. Gellir dod o hyd i'r ffurflenni ar-lein ac mewn derbynfeydd.

Manylion cyswllt

Mae Polisi Diogelu Data'r Coleg ar gael ar wefan y Coleg.

Os hoffech chi fwy o esboniad am y GDPR neu hoffech chi gael mynediad i ddata personol amdanoch y mae'r Coleg yn eu cadw, cysylltwch â'r:

Swyddog Diogelu Data: DPO@coleggwyrabertawe.ac.uk

Os hoffech chi gwyno, cysylltwch â swyddfa'r comisiynydd. Mae gwybodaeth am sut i wneud hyn ar gael ar www.ico.org.uk

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Rhif ffôn: 029 2067 8400